Annwyl Cwsmer

**Swyddfa Bost® Tonypandy**
**38-40 Stryd Dunraven, Tonypandy, CF40 1AL**

**<u>Cau'r Gangen Dros Dro</u>**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod fod y gangen uchod, am resymau gweithredol, wedi cau dros dro ar 11 Mehefin 2018. Mae'n ddrwg iawn gennyf am fod yn hwyr yn rhoi gwybod ichi'r tro hwn.

Rydym yn ymdrechu i adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post yn Nhonypandy a hoffwn ymddiheuro am unrhyw anhwylustod y gallai'r cau dros dro ei achosi yn lleol. Yn y cyfamser, gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am ganghennau eraill yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae rhagor o wybodaeth am yr Egwyddorion hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Hoffwn ddiolch ichi am fod yn amyneddgar ac rydym yn addo y cewch wybod am unrhyw ddatblygiadau maes o law.

Yr eiddoch yn gywir

*Gareth Shylon*

**Gareth Shylon**
**Rheolwr Ardal dros Newidiadau i'r Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gwnawn hyn ar ein gwefan yn <u>postoffice.co.uk/privacy</u>

**Cafodd yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Mae copi llawn o'r Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ar gael ar postofficeviews.co.uk

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

**Canghennau eraill:**

**Swyddfa Bost Pen-y-graig**
61 Heol Tylacelyn
Tonypandy
CF40 1JU

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 06:00 – 21:30 |
| Mawrth | 06:00 – 21:30 |
| Mercher | 06:00 – 21:30 |
| Iau | 06:00 – 21:30 |
| Gwener | 06:00 – 21:30 |
| Sadwrn | 06:00 – 21:30 |
| Sul | 07:00 – 21:00 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ond ac eithrio Treth y Car, y Loteri Genedlaethol, dewis cynhwysfawr o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon fynediad gwastad a drws llydan ynghyd â stribed trothwy wedi'i godi wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae yna barcio am amser cyfyngedig ar ymyl y ffordd gerllaw. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Tonypandy a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 50 metr i ffwrdd.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 0.6 milltir o gangen Tonypandy, ar hyd tir bryniog.

---

**Swyddfa Bost Trealaw Isaf**
319 Heol Brithweunydd
Tonypandy
CF40 2NY

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 09:00 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Mawrth | 09:00 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Mercher | 09:00 – 13:00 |
| Iau | 09:00 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Gwener | 09:00 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Sadwrn | 09:00 – 12:30 |
| Sul | Ar gau |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ond ac eithrio Treth y Car, y Loteri Genedlaethol, dewis cynhwysfawr o Arian Teithio, a Gwirio ac Anfon Pasbort.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 0.7 milltir o gangen Tonypandy, ar hyd tir bryniog.

---

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**